# Rheolau Sefydlog: Pwyllgorau'r Cyngor

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 07 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 2.0

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Mehefin 2020

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English

# RHEOLAU SEFYDLOG: PWYLLGORAU'R CYNGOR

Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn berthnasol i Bwyllgorau llywodraethu canlynol y Cyngor: y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio; y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad; y Pwyllgor Diswyddo; y Pwyllgor Taliadau; a'r Pwyllgor Buddsoddiadau.

Gall Pwyllgorau eraill ym Mhrifysgol Aberystwyth fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog hyn drwy benderfyniad.

## 1. DEHONGLI

1. Os oes unrhyw gwestiynau ynghylch dehongli'r Rheolau Sefydlog hyn, dylid eu codi â Chlerc y Pwyllgor perthnasol neu â'r Clerc i'r Cyngor yn y lle cyntaf. Os bydd angen, cyfeirir cwestiynau o'r fath ymlaen i Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol, a bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol.

2. Os ceir unrhyw anghysonder rhwng y Rheolau Sefydlog hyn a'r Siarter, yr Ystatudau, yr Ordinhadau neu'r Rheoliadau, ystyrir mai'r dogfennau olaf hynny sydd yn awdurdodol.

## 2. GALLUOEDD A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd galluoedd a chyfrifoldebau pob Pwyllgor llywodraethu yn unol â'r disgrifiad yn eu cylch gorchwyl perthnasol.

## 3. IEITHOEDD SWYDDOGOL

1. Mae Erthygl II o'r Siarter Atodol yn datgan mai'r Gymraeg a'r Saesneg fydd Ieithoedd Swyddogol y Brifysgol.

2. Darpariaeth ddwyieithog leiaf dogfennaeth y pwyllgorau llywodraethu fydd yr hysbysiadau a'r agendâu.

3. Bydd hawl gan yr Aelodau annerch cyfarfodydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Drwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor dan sylw, bydd y Clerc i'r Pwyllgor yn trefnu adnoddau cyfieithu ar y pryd os ceir cais am yr adnoddau hynny.

## 4. AELODAETH

1. Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn unol â'r hyn a bennir yn y cylch gorchwyl perthnasol.

2. <u>Penodi Aelodau Annibynnol</u>

   Penodir Aelodau Annibynnol yr is-bwyllgorau gan y Cyngor. Gall y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ddod ag argymhellion gerbron. Gall yr enwebiadau hynny gynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ar y pryd.

3. <u>Ethol Aelodau o'r Senedd</u>

   1. Cynhelir etholiadau gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn rhinwedd ei swydd fel Clerc i'r Senedd, a gwneir y penodiadau gan aelodau presennol y Senedd ac o blith aelodau

presennol y Senedd. Rhoddir hysbysiad am yr etholiad i aelodau'r Senedd a gwahoddir enwebiadau am gynrychiolwyr ymhen cyfnod o rybudd rhesymol.

2. Er mwyn i bob enwebiad fod yn ddilys, rhaid iddynt gael eu cynnig a'u heilio gan aelodau o'r Senedd. Gall enwebai naill ai ei gynnig / ei chynnig ei hunan, neu roi datganiad ysgrifenedig ei fod / ei bod yn cydsynio i gael ei enwebu / ei henwebu.

3. Os yw'r nifer o enwebiadau yn fwy na'r nifer o leoedd a ddyrennir i adran, cynhelir etholiad drwy bleidlais holl aelodau'r Senedd.

4. Cynhelir unrhyw bleidlais drwy ddull yr Ailbleidlais Drosglwyddadwy (neu ddull y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy lle y pleidleisir ar ddwy swydd wag). Etholir yr ymgeisydd / ymgeiswyr a gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau.

5. Fel rheol, cynhelir yr etholiadau fel y bydd modd cyflwyno'r canlyniadau er mwyn cael eu cadarnhau i gyfarfod olaf y Senedd yn y flwyddyn academaidd.

4. <u>Penodi Aelodau a / neu Gynrychiolwyr o blith y Myfyrwyr</u>

1. Penodir yr unigolion hyn gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar y ddealltwriaeth fod yr unigolion a benodir yn barod i wasanaethu ar yr is-bwyllgor dan sylw am y flwyddyn academaidd gyfan.

2. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn rhoi enwau a manylion cyswllt yr unigolion a benodir i Glerc y Cyngor erbyn 1 Hydref bob blwyddyn.

5. <u>Penodi Aelodau Staff Anacademaidd</u>

1. Bydd yr unigolion hyn yn dod o garfan o dri aelod o staff anacademaidd a etholir, sef yr aelod o'r staff anacademaidd a etholwyd i'r Cyngor a'r ddau gynrychiolydd o'r staff anacademaidd a etholir i'r Senedd.

2. Bydd y garfan o aelodau staff anacademaidd yn dod i gytundeb rhyngddynt ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ynglŷn â pha is-bwyllgorau llywodraethu y byddant yn gwasanaethu arnynt.

3. Bydd cynrychiolydd o'r garfan o staff anacademaidd a etholwyd yn rhoi gwybod i Glerc y Cyngor erbyn 1 Hydref bob blwyddyn pa gynrychiolydd fydd yn gwasanaethu ar ba is-bwyllgor academaidd. Bydd y penodiadau hyn mewn grym am weddill y flwyddyn academaidd.

6. <u>Hyd Tymor Swyddi</u>

1. Bydd aelodau *ex-officio*, sydd yn aelodau yn rhinwedd swydd benodol, yn aelodau am gyhyd ag y byddant yn dal swydd sy'n eu cymhwyso am y categori hwn o aelodaeth.

2. Oni bai bod darpariaeth fel arall, penodir yr Aelodau Annibynnol am dair blynedd fel cyfnod cychwynnol, a bydd modd eu hailbenodi am dymor pellach, hyd at dair blynedd, drwy gael cytundeb y naill ochr a'r llall.

3. Etholir Aelodau o'r Senedd am dair blynedd fel tymor cychwynnol, a bydd modd iddynt gael eu hailethol am dymhorau pellach.

4. Bydd yr Aelodau / Cynrychiolwyr o’r Myfyrywr yn gwasanaethu yn unol â'r cyfnodau yn y swydd y cytunir arnynt gan Undeb Myfyrywr Prifysgol Aberystwyth, sef blwyddyn o dymor yn arferol, gyda’r posibilrwydd o ail-benodi am un flwyddyn arall.

5. Bydd yr Aelodau o’r Staff Anacademaidd yn parhau i wasanaethu cyhyd â’u bod yn aelodau o’r pwll o staff anacademaidd.

6. Bydd unrhyw swyddi gwag cynamserol yn cael eu llenwi am weddill tymor swydd yr Aelod sydd wedi gadael ei le / ei lle, yn unol â'r drefn a ddisgrifir yn 4.2 i 4.4 uchod.

7. <u>Datgan Buddiannau</u>

1. Mae'n ofynnol ar bob Aelod annibynnol o bwyllgor, lle nad ydynt hefyd yn aelod o'r Cyngor, ddatgan bob blwyddyn unrhyw fudd personol, yn ariannol neu fel arall, sy'n debygol (neu a fyddai, pe deuai at sylw'r cyhoedd, yn cael ei weld yn debygol) o ymyrryd â gallu'r Aelod i arddel barn annibynnol.

2. Bydd Aelod o Bwyllgor sydd â budd personol mewn unrhyw fater a drafodir mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor, yn datgelu cyn gynted ag y bo'n ymarferol fod ganddo / ganddi fudd yn y cyfarfod a bydd yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o'r cyfarfod fel y bo angen.

3. Ni chyfrifir bod gan Aelod o Bwyllgor fudd ariannol neu bersonol mewn materion a drafodir dim ond ar y sail ei fod / ei bod yn aelod o staff neu'n fyfyrwyr yn y Brifysgol.

8. <u>Ymddiswyddo, Ymddeol a Diswyddo Aelodau</u>

1. Ac eithrio'r Aelodau *ex-officio*, caiff Aelodau gynnig ymddiswyddo o Bwyllgor ar unrhyw adeg drwy roi gwybod i'r Cadeirydd a'r Clerc perthnasol. Dilynir y drefn berthnasol wedyn er mwyn penodi aelod newydd i'r lle hwnnw.

2. Bydd aelodau *ex-officio* yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor pan na fyddant bellach yn dal y swydd dan sylw.

3. Bydd Aelodau annibynnol yn gwasanaethu tan ddiwedd tymor y swydd y cytunwyd arno pan gawsant eu penodi neu eu hail-benodi.

4. Bydd Aelodau o'r Senedd yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor naill ar ddiwedd tymor y swydd y cytunwyd arno pan gawsant eu hethol neu eu hail-ethol, neu pan fyddant yn peidio â bod yn aelod o'r Senedd.

5. Bydd Aelodau / Cynrychiolwyr o’r Myfyrwyr yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor naill ai ar ddiwedd tymor y swydd y cytunwyd arno pan gawsant eu penodi neu eu hail-benodi, neu pan fyddant yn peidio â bod yn aelod o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

6. Bydd yr Aelodau o’r Staff Anacademaidd yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor pan y bydd y penodiad sy’n eu gwneud yn gymwys i fod yn aelod o’r pwyll o staff etholedig anacademaidd yn dod i ben.

7. Ar argymhelliad Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol, gallai'r Cyngor, drwy wneud penderfyniad, ddiswyddo Aelod o Bwyllgor. Bydd Aelodau o'r fath yn cael gwahoddiad i roi cyflwyniad ysgrifenedig, ac i fod yn bresennol ac annerch y cyfarfod o'r Cyngor lle y bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried.

9. Y Cadeirydd

   1. Penodir Cadeiryddion y Pwyllgorau gan y Cyngor.

   2. Oni bai bod y cylch gorchwyl perthnasol yn darparu fel arall, os na fydd y Cadeirydd penodedig yn bresennol mewn cyfarfod, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ethol, drwy godi dwylo, un o'r Aelodau Annibynnol sy'n bresennol i gadeirio yn y cyfarfod hwnnw. Os nad oes Aelodau Annibynnol yn bresennol, gellir ethol un o Aelodau eraill y Pwyllgor sydd yn bresennol i gadeirio.

## 5. CLERC Y PWYLLGOR

Penodir unigolyn i fod yn Glerc y Pwyllgor, a fydd yn cydweithio â Chlerc y Pwyllgor i sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol.

## 6. CYNNAL GWAITH Y PWYLLGORAU

Oni nodir yn wahanol, bydd y Rheolau Sefydlog yn yr adran hon yn berthnasol i'r holl Aelodau ac i'r rhai nad ydynt yn aelodau sy’n gweinyddu mewn cyfarfodydd.

1. Cyfarfodydd Cyffredin

   1. Cynhelir Cyfarfodydd Cyffredin o'r Pwyllgor yn unol â'r amserlen a roddir yn y cylch gorchwyl perthnasol.

   2. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddyddiadau'r Cyfarfodydd Cyffredin yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

   3. Os bydd angen newid dyddiad un o Gyfarfodydd Cyffredin y Pwyllgor, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn dweud wrth Glerc y Pwyllgor am ymgynghori â'r Aelodau ynghylch dyddiadau eraill a gynigir. Fel arfer rhoddir o leiaf 14 diwrnod calendr o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw os newidir dyddiad unrhyw Gyfarfod Cyffredin.

2. Cyfarfodydd Arbennig

   1. Gellir cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor ar ddyddiad ac ar amser a bennir gan Gadeirydd y Pwyllgor, ac fe'i cynullir gan Glerc y Pwyllgor ar gais ysgrifenedig Cadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor neu o leiaf hanner o Aelodau'r Pwyllgor.

   2. Mewn unrhyw Gyfarfod Arbennig, cyfyngir y materion a drafodir i'r hyn a hysbyswyd, ac i unrhyw faterion sy'n cael eu datgan gan Gadeirydd y Pwyllgor fel rhai sy'n codi'n uniongyrchol o'r materion hynny. Adroddir cofnodion unrhyw Gyfarfod Arbennig i'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

3. Hysbysiad am Gyfarfod

   1. Bydd Clerc y Pwyllgor yn anfon hysbysiad am bob Cyfarfod Cyffredin at bob Aelod o'r Pwyllgor o leiaf saith diwrnod calendr cyn dyddiad cyfarfod o'r fath.

2. Bydd Clerc y Pwyllgor yn anfon hysbysiad am Gyfarfodydd Arbennig at bob Aelod o'r Pwyllgor cyn gynted ag y ceir y cais ysgrifenedig yn unol â'r manylion yn 6.2.1. Gwneir pob ymdrech i roi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r Aelodau am gyfarfod o'r fath.

3. Bydd hysbysiadau am gyfarfodydd yn cael eu hanfon drwy'r post neu'n electronig i'r cyfeiriad diweddaraf a gofrestrwyd â Chlerc y Pwyllgor.

4. Ni fydd yr un cyfarfod o'r Pwyllgor yn annilys dim ond oherwydd na roddwyd hysbysiad am gyfarfod o'r fath i unrhyw unigolyn neu gorff sydd â'r hawl i gael hysbysiad o'r fath.

4. <u>Agendâu a Phapurau Pwyllgorau</u>

1. Fel rheol bydd yr agenda a'r papurau sydd i'w hystyried mewn Cyfarfod yn cael eu cylchredeg drwy'r post neu'n electronig i'r Aelodau ar yr un pryd â'r Hysbysiad am y Cyfarfod. Os nad yw hynny'n ymarferol am resymau dilys, bydd y papurau fel rheol yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod fan hwyraf.

2. Fel rheol, y papurau a gylchredwyd i'r Aelodau gan Glerc y Pwyllgor fydd yr unig bapurau a ystyrir gan y Pwyllgor.

3. Ni fydd papurau a gylchredir yn ystod Cyfarfod yn cael eu hystyried ac eithrio drwy ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor yn unig.

4. Bydd trefn y busnes yn y Cyfarfodydd Cyffredin ac Arbennig yn cael eu gosod yn yr agenda a drefnir gan Glerc y Pwyllgor, fel y'i pennir gan Gadeirydd y Pwyllgor. Gall Cadeirydd y Pwyllgor aildrefnu trefn y busnes yn ystod y cyfarfod.

5. <u>Cyfrinachedd</u>

1. Bydd holl fusnes y Pwyllgor yn gyfrinachol i'r Brifysgol. Ni chaiff adroddiadau sy'n cael eu cylchredeg i'w hystyried gan Aelodau eu datgelu y tu allan i'r Brifysgol heb ganiatâd penodol Cadeirydd y Pwyllgor, mewn ymgynghoriad â Chlerc y Pwyllgor.

2. Oni bai y nodir yn benodol wrth ei gylchredeg bod adroddiad unigol yn 'Gyfyngedig', 'Masnachol Gyfrinachol' neu 'Gyfrinachol', gall Aelodau rannu gwybodaeth berthnasol o fewn i'w Cyfadrannau, eu Hadrannau neu etholaethau eraill (gan gynnwys corff y myfyrwyr) ar y ddealltwriaeth na fydd y rhai y rhennir yr wybodaeth â hwy yn ei datgelu y tu allan i'r Brifysgol.

3. Cedwir holl weithrediadau'r Pwyllgor yn gyfrinachol yn ystod ac yn dilyn cyfarfod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: fanylion a chynnwys trafodaethau a gwybodaeth ynghylch pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys safbwyntiau, barn a sefyllfaoedd a fynegir gan aelodau unigol eraill.

4. Ni chaiff unrhyw un heblaw Cadeirydd y Pwyllgor, neu unigolyn a awdurdodwyd gan Gadeirydd y Pwyllgorm neu gan Gadeirydd y Cyngor, i wneud hynny, wneud datganiad ar unrhyw ffurf ar ran y Pwyllgor yn ymwneud â busnes neu weithrediadau'r Pwyllgor.

5. Os credir bod unigolyn yn amharchu'r darpariaethau uchod yng nghyswllt cyfrinachedd, gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn i'r unigolyn am eglurhad a, lle bo'n addas, ofyn i'r unigolyn roi'r gorau i hynny. Wrth wneud hynny, bydd y Cadeirydd yn rhoi ystyriaeth deilwng i'r darpariaethau a amlinellir ar wahân yn yr adran yn ymwneud ag 'Ymddygiad'.

6. Bod yn Bresennol a Chymryd Rhan

1. Gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Pwyllgor, gall Aelodau gymryd rhan o bell yn y cyfarfodydd os nad oes modd osgoi bod yn absennol o'r cyfarfod ei hun. Gall y dulliau hyn gynnwys cymryd rhan yn electronig, a thrwy gyfrwng fideo-gynadledda neu sain-gynadledda.

2. Bydd unigolion sy'n cymryd rhan o bell yn cael eu cyfrif fel petaent yn bresennol i ddibenion cworwm.

7. Trafodaethau, Cynigion a Gwelliannau

1. Bydd unrhyw Aelod sy'n dymuno cyflwyno mater a / neu gynnig am ddadl o sylwedd mewn Cyfarfod Cyffredin o'r Pwyllgor yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor a hynny heb fod yn llai na 14 diwrnod calendr cyn dyddiad y cyfarfod.

2. Gall Cadeirydd y Pwyllgor ddod â chyfarfod y Pwyllgor i ben.

3. Bydd yr Aelodau yn annerch Cadeirydd y Pwyllgor gan gyfeirio eu cyfraniadau at y mater a drafodir, neu ar esboniad personol neu bwynt o drefn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor, fel y gwêl yn dda, bennu terfyn amser ar gyfer pob cyfraniad, cyflwyniad, neu ddadl.

4. Bydd hawl gan y rhai sy'n gweinyddu ar gyfarfod gyfrannu at y trafodaethau drwy wahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor.

5. Ni chaniateir trafodaeth ar Gynnig na Gwelliant os nad yw wedi'i eilio, ac eithrio lle bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno, heb roi rhybudd, Gynnig neu Welliant sydd heb gael ei eilio, a ddaw drwy hynny yn Gynnig neu Welliant gerbron y Pwyllgor.

6. Bydd pob Cynnig neu Welliant, oni bai bod rhybudd wedi'i roi eisoes, yn cael ei roi yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor, oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor yn caniatáu i Gynigion a Gwelliannau o'r fath gael eu cynnig ar lafar.

7. Rhaid i bob Gwelliant fod yn berthnasol i'r Cynnig y cyflwynir yn ei gylch, a rhaid i effaith y Gwelliant beidio â bod cyfystyr â chyflwyno cynnig arall i'r cyfarfod na dirymu'r Cynnig sydd gerbron y cyfarfod. Cadeirydd y Pwyllgor fydd yn penderfynu a yw'n berthnasol neu a yw'n dirymu'r Cynnig dan sylw.

8. Ystyrir bod pob amrywiad ar y Cynnig yn Welliant ac fe'i trinnir felly oni bai iddo gael ei gyflwyno gan gynigiwr y Cynnig gwreiddiol a hynny â chydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor neu fwyafrif o'r Aelodau sydd yn bresennol.

9. Ac eithrio drwy gydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor, ni fydd yr un Aelod yn siarad fwy nag unwaith ar Gynnig neu Welliant penodol, ac eithrio:

    1. bod gan gynigiwr y Cynnig neu'r Gwelliant hawl i ymateb ar ddiwedd y ddadl ar y Cynnig neu'r Gwelliant dan sylw;

    2. ar bwynt o drefn nad yw, drwy'r diffiniad, ond yn ymwneud ag achosion lle yr honnir bod Rheol Sefydlog wedi'i thorri, neu

    3. er mwyn rhoi esboniad personol a fydd yn egluro rhan o gyfraniad neu araith a wnaed yn gynharach gan yr aelod hwnnw, a allai ymddangos fel petai wedi'i chamddeall.

10. Ni fydd modd cwestiynu dyfarniad Cadeirydd y Pwyllgor ynghylch pwynt o drefn nac ynghylch caniatáu esboniad personol.

11. Pan drafodir Cynnig, ni fydd yr un Cynnig arall yn cael ei gyflwyno, ac eithrio Gwelliannau, heblaw'r penderfyniadau gweithdrefnol isod:

    1. dod â'r cyfarfod i ben;

    2. dod â'r ddadl i ben;

    3. symud ymlaen i'r mater nesaf;

    4. rhoi'r cwestiwn gerbron ar unwaith;

    5. pleidleisio ar ran neu rannau o'r Cynnig ar wahân;

    6. cyfeirio pwnc y ddadl yn ôl.

12. Un Gwelliant yn unig y gellir ei gynnig a'i drafod ar yr un pryd, ac ni chynigir Gwelliant arall nes ymdriniwyd â'r Gwelliant dan sylw.

13. Os collir Gwelliant, gellir cynnig Gwelliannau eraill i'r Cynnig gwreiddiol. Os derbynnir Gwelliant, bydd y Cynnig diwygiedig yn cymryd lle'r Cynnig gwreiddiol, ac ef fydd y Cynnig o sylwedd y gellir cynnig unrhyw Welliant pellach iddo.

14. Caiff y cynigiwr a'r eilydd dynnu Cynnig neu Welliant yn ôl gyda chydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor neu fwyafrif o'r Aelodau sydd yn bresennol.

15. Er mwyn cyflwyno Cynnig i ddiddymu penderfyniad blaenorol y Pwyllgor, bydd angen rhoi rhybudd am y Cynnig i Glerc y Pwyllgor a hynny heb fod yn llai na 21 o ddiwrnodau calendr cyn dyddiad y cyfarfod. Ni fydd hyn yn berthnasol i unrhyw gynigion a gynigir gan Gadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor na Chadeirydd y Pwyllgor.

8. <u>Gweithdrefnau Pleidleisio</u>

1. Penderfynir ar bob Cynnig neu Welliant drwy fwyafrif syml o Aelodau'r Pwyllgor sydd yn bresennol ac yn pleidleisio, ac eithrio lle y pennir fel arall.

2. Fel rheol, cynhelir y pleidleisio drwy godi dwylo. Serch hynny, gellir cynnal pleidlais gudd ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, cynigiwr ac eilydd Cynnig, neu unrhyw ddau Aelod arall, ar yr amod bod Clerc y Pwyllgor wedi cael rhybudd priodol o'r bwriad i alw am bleidlais gudd ac wedi gwneud trefniadau dros dro er mwyn gallu cynnal pleidlais o'r fath.

3. Lle y bo'n ymarferol, gellir cynnal pleidleisiau cudd drwy ddulliau electronig.

4. Mewn achosion lle mae'r bleidlais yn gyfartal, bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor ail bleidlais neu bleidlais benderfynol. Nid oes rhwymedigaeth ar Gadeirydd y Pwyllgor ddefnyddio'r bleidlais benderfynol hon. Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn penderfynu peidio â defnyddio'r bleidlais honno, datgenir bod y Cynnig 'heb ei gymeradwyo’.

5. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i alw am bleidlais a gofnodir os gwelir bod y mater sydd i'w benderfynu o bwys eithriadol i ffyniant y sefydliad. Bydd gan Aelod heblaw Cadeirydd y Pwyllgor yr hawl i gynnig bod mater yn cael ei benderfynu drwy

bleidlais a gofnodir. Os eilir cynnig o'r fath, fe'i rhoddir gerbron y Pwyllgor a phenderfynir arno drwy bleidlais syml drwy godi dwylo.

9. Cworwm a Dilysrwydd y Trafodion

1. Y cworwm i gyfarfodydd Pwyllgor yn unol â'r disgrifiad a roddir yn y cylch gorchwyl perthnasol. Os na cheir cworwm, ymgynghorol yn unig fydd unrhyw drafodion ac ni wneir yr un penderfyniad, ac eithrio penderfynu dod â'r cyfarfod i ben.

2. Ni fydd trafodion y Pwyllgor yn annilys drwy unrhyw ddiffyg o ran ei aelodaeth gyflawn, na chan unrhyw ddiffyg wrth benodi Aelodau na diffyg yng nghymwysterau ei Aelodau.

10. Ymddygiad

Os bydd unrhyw unigolyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn cyson ddiystyru dyfarniadau Cadeirydd y Pwyllgor neu'n ymddwyn yn afreolus, yn amhriodol, yn sarhaus, neu'n llesteirio'n fwriadol waith y Pwyllgor, a thrwy hynny ym marn Cadeirydd y Pwyllgor yn ei gwneud yn amhosib cynnal y gwaith mewn modd priodol a threfnus, caiff Cadeirydd y Pwyllgor, heb gyflwyno cwestiwn:

1. gorchymyn i'r unigolyn mewn cwestiwn esgusodi ei hun o'r trafodaethau; neu

2. ddod â'r cyfarfod i ben neu ei atal dros dro, a hynny am y cyfryw gyfnod ag sydd yn fuddiol ym marn Cadeirydd y Pwyllgor.

11. Cofnod o Waith Pwyllgor

1. Paratoir cofnod ffurfiol o bob Cyfarfod Cyffredin ac Arbennig, ac fe'i hystyrir yn wir gyfrif o'r trafodion pan gânt eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

2. Cedwir cofnod o bresenoldeb yr Aelodau, a rhoddir adroddiad yn y cofnodion am y rhai a fu'n bresennol ym mhob cyfarfod. Bydd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i Glerc y Pwyllgor.

12 Ymdrin â Materion Brys

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael y grym, ar ôl ymgynghori â'r Is-Ganghellor a Chlerc y Pwyllgor, i gymeradwyo materion ar ran y Pwyllgor, a bydd yn rhoi adroddiad amdanynt i Gyfarfod Cyffredin nesaf y Pwyllgor. Fel rheol, materion brys fydd y rhain, na allant yn rhesymol gael eu hystyried yn amserol gan yr aelodau.

## 7. NEWID RHEOLAU SEFYDLOG AC ATAL RHEOLAU SEFYDLOG DROS DRO

1. Gall adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn nad ydynt yn ymgorffori cymalau o'r Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau gael eu dirymu, eu newid neu eu hehangu gan y Cyngor, a hynny fel rheol ar argymhelliad Pwyllgor y Siarter. Bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio'n uniongyrchol o adolygu Siarter, Ystatudau, ac Ordinhadau'r Brifysgol yn gallu dod i rym heb fod angen penderfyniad ar wahân gan y Cyngor.

2. Bydd Pwyllgor y Siarter yn adolygu'r Rheolau Sefydlog hyn ar ran y Cyngor a hynny bob yn bum mlynedd neu'n amlach.

3. Gellir atal dros dro adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn nad ydynt yn ymgorffori cymalau o'r Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau er mwyn cynnal eitem benodol o fusnes ar ôl cael pleidlais lwyddiannus ar Gynnig i'r perwyl hwnnw. Bydd y Rheol(au) Sefydlog a ataliwyd dros dro yn dod yn ôl i'w grym yn syth ar ôl cwblhau'r trafodaethau ar yr eitem dan sylw.